Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Nodyn Briffio 7 Munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: ADUSCymru@llyw.cymru

## CEFNDIR ADUS


Mae'n broses adolygu sengl newydd pan fo angen dull gweithredu amlasiantaethol gan ymgorffori'r prosesau adolygu a ganlyn: Adolygiadau Ymarfer Oedolion; Adolygiadau Ymarfer Plant; Adolygiadau Lladdiadau Domestig; Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

## Y DIWEDDARAF AM RAGLEN HYFFORDDIANT ADUS

- Mae modiwlau e-ddysgu yn cael eu datblygu i sicrhau bod y rhai nad ydynt wedi ymgymryd â'r hyfforddiant yn gallu cael mynediad at hyfforddiant o bell.
- Mae sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb yn cael ei threfnu ar gyfer y rhai sydd ar restr y Cadeiryddion/Adolygwyr ac sydd angen yr hyfforddiant

## DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD

- Lansiwyd ADUS, a daeth yn weithredol o 1 Hydref 2024.
- Cynhaliwyd y cyfarfod Grŵp Strategaeth cyntaf ar 24 Hydref.
- Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Chydlynu Llywodraeth Cymru gydag arweinwyr polisi allweddol i gydlynu ymatebion Llywodraeth Cymru i ADUS.




## Y DIWEDDARAF AM STORFA DDIOGELU CYMRU

- Mae trefniadau pontio bellach ar waith a fydd yn galluogi'r rhai sy'n ymgymryd ag ADUS i gael y mynediad perthnasol sydd ei angen at Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd hwn yn weithredol tan fis Mawrth 2025.
- Byddwn yn mynd i'r afael â'r materion diogelwch allweddol i alluogi mynediad ehangach trwy gynllun cofrestru defnyddwyr o fis Ebrill 2025.
- Mae telerau defnyddio Storfa Ddiogelu Cymru yn awr yn eu lle.

## Y CAMAU NESAF

- Rhyddhau rhestr y Cadeiryddion/Adolygwyr (dros 140 bellach wedi'u cofrestru) a chwblhau'r drefn ar gyfer sut i hawlio o gronfa ‘Lwfans Cyfrifoldeb’ Llywodraeth Cymru.
- Cynhelir lansiad ffurfiol ADUS ar 5 Rhagfyr, a bydd gwahoddiad yn dilyn yn fuan.
- Mae cyfarfod Bwrdd y Gweinidogion wedi'i drefnu ar gyfer 8 Ionawr 2025
- Edrych ar themâu sy'n dod i'r amlwg a digwyddiadau dysgu dwywaith y flwyddyn

## ADOLYGU’R HYN A DDYSGWYD O’R PEILOT ADUS

- Roedd yr hyn a ddysgwyd ar ôl cwblhau dau beilot ADUS wedi codi'r angen am well arweiniad ar ddatblygu camau gweithredu ac argymhellion SMART ar gyfer adroddiadau ADUS. Mae canllaw arferion da bellach yn cael ei ddatblygu.
- Bydd nodyn briffio 7 munud arall yn cael ei gynhyrchu yn amlinellu mwy o’r hyn a ddysgwyd yn deillio o'r cynllun peilot ADUS

## DYSGU AC ADNODDAU

- Cytunodd y Grŵp Strategaeth y dylid edrych ar thema ynghylch Dynladdiadau Iechyd Meddwl fel maes posibl ar gyfer dysgu. Mae wedi bod yn ffactor cyffredin mewn nifer o ADUS peilot ac mae'n bwysig bod yr hyn a ddysgir o'r Adolygiadau yn cael ei rannu a'i ddatblygu ymhellach.
- Mae'r dogfennau ategol canlynol ar gael ar Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol | LLYW.CYMRU:
    - Canllawiau Statudol
    - Templedi/pecynnau
    - Canllaw Hawdd ei Ddeall a Phobl Ifanc
    - Siart Llif Ymgysylltu
    - Taflen ffeithiau

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**